

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

**Protocol Rhannu Gwybodaeth  
ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru**

## Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn .....	4
2	Y sefydliadau partner sy'n rhannu gwybodaeth .....	5
3	Manteision rhannu .....	6
4	Sail gyfreithiol dros rannu.....	6
5	Manylion y wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu .....	8
6	Nodi'r defnyddiwr gwasanaeth .....	8
7	Hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth .....	9
8	Diogelwch gwybodaeth .....	9
9	Rheoli cofnodion .....	10
10	Ceisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth .....	10
11	Cwynion.....	10
12	Adolygu'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn.....	10
	Atodiad A – Rhestr Termau .....	11
	Atodiad B – Llif Data Enghreifftiol .....	13
	Atodiad C – Rhestr Wirio Rhannu ar gyfer Partneriaid ym maes Diogelu.....	14
	Atodiad CH – Rhestr Wirio Rhannu ar gyfer Partneriaid ym maes Gorfodi'r Gyfraith .....	16
	Atodiad D – Ffurflenni Digwyddiadau SchoolBeat.....	17
	Appendix DD – Rhestr o Ysgolion Ymrestredig.....	21
	Atodiad E – Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion .....	40

## Statws y ddogfen hon

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 19/11/2021 ac mae'n weithredol o'r dyddiad hwnnw. Gall gael ei disodli gan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru yn unol ag adran 12. Mae'r copi diweddaraf o'r ddogfen hon bob amser ar gael yn:

<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-prg>

## Saesneg / English Language

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. / This document is available in English.

<https://schoolbeat.cymru/documents/wsp-isp>

Ni ddylai staff oedi cyn rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal achos o gam-drin neu niwed difrifol mewn argyfwng neu mewn sefyllfaoedd lle mae bywyd rhywun yn y fantol. Dylai staff ddilyn gweithdrefnau eu sefydliad ar gyfer pryderon sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn esbonio'r sail gyfreithiol dros arferion a pholisïau penodol Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ac ni thybir ei fod yn cyfyngu ar weithredoedd swyddogion yr Heddlu wrth weinyddu cyfiawnder, atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd neu gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill a roddir iddynt drwy statud neu ddeddfiad.

# 1 Cyflwyniad i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn

- 1.1 Paratowyd y ddogfen hon i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.
- 1.2 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn ategu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac mae'n cwmpasu cyfnewid gwybodaeth rhwng yr heddlu, y gwasanaeth tân, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau troseddau ieuenctid, cymorth i ddioddefwyr, awdurdodau tai ac awdurdodau addysg, gan gynnwys ysgolion.
- 1.3 Mae heddluoedd sy'n bartneriaid yn gweithredu Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru er mwyn darparu gwasanaeth plismona cefnogol i helpu ysgolion i ymdrin â phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd effeithiol a chyson.
- 1.4 Datblygwyd y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn i gefnogi prosesau rhannu gwybodaeth mewn perthynas ag ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat, digwyddiadau nad ydynt yn achosion brys sy'n digwydd rhwng disgyblion ar safle ysgol.
- 1.5 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn nodi'r sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth, y mathau o wybodaeth bersonol sydd eu hangen ac at ba ddibenion y gall sefydliadau partner rannu gwybodaeth bersonol.
- 1.6 Nodau rhannu gwybodaeth o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yw:
  - 1.6.1 sicrhau prosesau cyson ac effeithiol ar gyfer diogelu pobl ifanc sy'n wyneb risg;
  - 1.6.2 sicrhau bod camau gweithredu a gymerir i'w diogelu yn cael eu cofnodi'n gywir;
  - 1.6.3 galluogi partneriaid i reoli'r galw am ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat yn effeithiol;
  - 1.6.4 galluogi partneriaid i ddatblygu rhaglenni addysgol i atal niwed;
  - 1.6.5 dogfennu achosion o niwed ymhlith pobl ifanc a chymunedau ysgol, ymateb iddynt a'u lleihau;
  - 1.6.6 deall y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddygiad troseddol neu sydd wedi dod ar ei draws, gan gynnwys gwahaniaethau ar sail nodweddion gwarchoddedig.
- 1.7 Dylid darllen y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn ar y cyd â llyfryn "Canllawiau ar gyfer Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) yn Cydweithio – Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion (gweler Atodiad E).
- 1.8 Mae Adran 4 o'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn amlinellu at ba ddibenion o dan y gyfraith y dylid rhannu gwybodaeth. Nid oes angen cydsyniad testun y data er mwyn rhannu data at y dibenion hyn (megis diogelu plentyn).
- 1.9 Dim ond at y dibenion penodol a nodir yn y ddogfen hon neu er mwyn cefnogi'r broses o weinyddu, archwilio, monitro ac arolygu gwasanaethau a gofynion adrodd yn effeithiol y caiff partneriaid ddefnyddio'r wybodaeth a ddatgelir iddynt o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn.
- 1.10 Ceir rhestr termau ar gyfer y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn Atodiad A.

## 2 Y sefydliadau partner sy'n rhannu gwybodaeth

2.1 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn cwmpasu cyfnewid gwybodaeth rhwng ymarferwyr y sefydliadau canlynol:

Sefydliad Partner sy'n Rhannu Gwybodaeth	Rheolwr Cyfrifol
Heddlu De Cymru	Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion (Materion Heddlu De Cymru) Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion (Materion polisi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru)
Heddlu Dyfed-Powys	Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion
Heddlu Gogledd Cymru	Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion
Heddlu Gwent	Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Rheolwr – Uned Troseddau Tân (os oes angen)
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Rheolwr – Uned Troseddau Tân (os oes angen)
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Rheolwr – Uned Troseddau Tân (os oes angen)
Awdurdodau Addysg Lleol	Cyfarwyddwyr Addysg (os oes angen)
Awdurdodau Tai Lleol	Rheolwr Tai Ardal (os oes angen)
Ysgolion: Rhestr o Ysgolion Ymrestredig – Atodiad DD	Pennaeth (os oes angen)
Gwasanaethau Cymdeithasol	Rheolwr Tîm (os oes angen)
Cymorth i Ddiodefwyr (Dyfed Powys)	Rheolwr Rhanbarthol (os oes angen)
Cymorth i Ddiodefwyr (Gwent)	Rheolwr Rhanbarthol (os oes angen)
Cymorth i Ddiodefwyr (Gogledd Cymru)	Rheolwr Rhanbarthol (os oes angen)
Cymorth i Ddiodefwyr (De Cymru)	Rheolwr Rhanbarthol (os oes angen)
Uned Atal Trais (Cymru)	Rheolwr yr Uned (os oes angen)
Timau Troseddau Ieuencid	Rheolwr Tîm Troseddau Ieuencid (os oes angen)

- 2.2 Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar y rheolwyr cyfrifol a nodir uchod i ddilyn y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn eu sefydliadau eu hunain. Dylai rheolwyr fonitro ac archwilio'r wybodaeth a rennir gan eu sefydliad o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd bwrpasol, sy'n cydymffurfio â'r protocol ac sy'n gymesur ag angen.
- 2.3 Mae cyfrifoldeb ar gydgysylltwyr cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cyswllt ag ysgolion i ddsbarthu'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn i bartneriaid a'u hannog i'w ddeall a'i roi ar waith.

### 3 Manteision rhannu

- 3.1 Drwy rannu gwybodaeth bersonol o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn, rhagwelir y caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n cynnig y manteision canlynol:
  - 3.1.1 diogelu pobl ifanc sy'n wyneb risg mewn ffordd gyson ac effeithiol;
  - 3.1.2 cofnodi camau diogelu a gymerir yn gyson;
  - 3.1.3 darpariaeth i ateb y galw am ymdrin â digwyddiadau SchoolBeat;
  - 3.1.4 datblygu rhaglenni addysgol i atal niwed yn barhaus;
  - 3.1.5 cofnodi achosion o niwed ymhlith pobl ifanc a chymunedau ysgol yn well, ymateb iddynt a'u lleihau;
  - 3.1.6 gwella dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n wynebu risg o gyflawni trosedd neu sydd wedi dod ar draws ymddygiad troseddol;
  - 3.1.7 atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol cyn pryd.

### 4 Sail gyfreithiol dros rannu

- 4.1 Caiff gwybodaeth ei datgelu o fewn fframwaith cyfreithiol Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998 ac yn unol â'r gyfraith gyffredin.
- 4.2 Bydd angen i bartneriaid allu bodloni un neu fwy o'r amodau Atodlen 8 yn y Ddeddf Diogelu Data wrth rannu data o dan y cytundeb hwn.
  - 4.2.1 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg.
  - 4.2.2 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu buddiannau allweddol bywyd testun y data neu unigolyn arall.
  - 4.2.3 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn gweinyddu cyfiawnder.
  - 4.2.4 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn atal twyll.
  - 4.2.5 Mae'r data personol eisoes yn gyhoeddus (yn amlwg yn gyhoeddus).
  - 4.2.6 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth ar gyfer hawliadau cyfreithiol.
  - 4.2.7 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn i lys weithredu yn ei rôl farnwrol.
  - 4.2.8 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.
- 4.3 Caiff gofynion partneriaid ym maes gorfodi'r gyfraith o dan Ran 3 o'r Ddeddf Diogelu Data eu bodloni drwy gydymffurfio ag amodau 4.2.

- 4.4 Mae partneriaid nad ydynt ym maes gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i Ran 2 o'r Ddeddf Diogelu Data a bydd angen iddynt allu bodloni un neu fwy o'r seiliau dros brosesu o dan Erthygl 6.
- 4.4.1 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.
- Mae hyn yn cynnwys yn benodol rannu gwybodaeth er mwyn gweinyddu cyfiawnder.
- 4.4.2 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau'r gyfraith gyffredin.
  - Caiff sefydliadau partner sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu plant rannu data i nodi'r plant hynny a'r risgiau diogelu hysbys neu risgiau diogelu a amheuir o dan delerau'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn.
- 4.4.3 Mae'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu bywyd rhywun (buddiannau allweddol i fywyd).
- Mewn argyfwng lle mae bywyd rhywun yn y fantol, caniateir rhannu gwybodaeth hanfodol o dan y gyfraith.
- 4.5 Yn ychwanegol at yr amodau a nodir uchod, efallai y bydd gofyniad statudol ar gyrff yn y sector cyhoeddus i rannu rhai mathau o ddata personol. Yn absenoldeb gofyniad statudol, dylai corff yn y sector cyhoeddus fod yn gallu esbonio'r pŵer cyfreithiol sydd ganddo i'w alluogi i rannu gwybodaeth.
- 4.5.1 Mae adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn caniatáu datgelu gwybodaeth bersonol i gefnogi strategaethau trosedd ac anhrefn lleol yn unol â'r amcanion a amlinellir yn benodol ynddi. Nid oes gorfodaeth i ddatgelu gwybodaeth ac mae'n rhaid i'r sefydliad wneud ei benderfyniad ei hun; fodd bynnag, mae'n rhaid bodloni gofynion dyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin a Deddf Diogelu Data 2018 o hyd. Felly, mae'n rhaid i wybodaeth a roddir yn gyfrinachol beidio â chael ei datgelu oni bai bod budd cyhoeddus tra phwysig dros wneud hynny.
- 4.5.2 Pwerau a roddir i'r sefydliadau partner drwy reoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg 1996, sef Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011.
- 4.5.3 Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 a Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011.
- 4.5.4 Mae adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol hyrwyddo neu wella llesiant cymdeithasol eu hardal. Mae hyn yn darparu pŵer ymhlyg i rannu gwybodaeth â gwasanaethau statudol eraill a'r sector annibynnol.
- 4.5.5 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn sicrhau bod gan yr heddlu y pwerau priodol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n gweithio iddynt fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau lleol. Mae'n datblygu'r cosbau sydd ar gael i'w defnyddio yn erbyn y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn ymestyn yr ystod o asiantaethau sy'n gallu eu defnyddio. Mae'n galluogi ysgolion, awdurdodau lleol a thimau troseddau ieuencid i weithio gyda rhieni plant sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn creu dulliau o orfodi'r gwaith hwn. Felly, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer ymhlyg i rannu gwybodaeth ag asiantaethau perthnasol.

- 4.5.6 Mae Rhan 3 o Ddeddf Plant 2004 yn gwneud darpariaeth i sefydliadau partner gydweithio i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn nodi'r trefniadau sy'n ofynnol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

## 5 Manylion y wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu

- 5.1 Mae'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu at ddiben y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ac felly gallai gynnwys:
- Enw
  - Dyddiad geni
  - Cyfeiriad
  - Cod post
  - Rhif NICHE
  - Ysgol
  - Grŵp blwyddyn ysgol
  - Rhif Unigryw'r Dysgwr / Rhif Unigryw'r Disgybl / Rhif Gyfresol Unigryw'r Disgybl
  - Ethnigrwydd
  - Data ar bresenoldeb disgybl
  - Data ar wahardd disgybl o'r ysgol
  - Data ar droseddau
  - Rhif Adnabod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNCID)
  - Rhif y Swyddfa Cofnodion Troseddol
  - Gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â chyswllt diweddar, cyfarfodydd, achosion o weld unigolyn, galwadau ffôn. Gallai hyn gynnwys dod i apwyntiadau neu fethu â gwneud hynny a phwy sy'n bresennol mewn cyfeiriad.
  - Gwybodaeth gyfredol am agwedd, ymarweddiad, ymddygiad ac ati.
  - Gwybodaeth am orchmynion llys, gwaharddebau, amodau mechnïaeth a materion cyfreithiol eraill.
  - Gwybodaeth hanesyddol berthnasol megis euogfarnau blaenorol, hanes cydberthnasau teuluol, opsiynau diogelwch eraill a ystyriwyd neu broblemau camddefnyddio sylweddau
- 5.2 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn caniatáu i ymarferwyr y sefydliadau partner wneud cais am wybodaeth at y dibenion a bennir yn Adran 4. Gall gwybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol at y dibenion hynny gael ei rhannu gan unrhyw bartner.
- 5.3 Ni fydd gwybodaeth bersonol a ddarperir gan sefydliadau partner yn cael ei rhyddhau i unrhyw drydydd parti fel arfer heb ymgynghori ymlaen llaw â'r sefydliad partner sy'n berchen ar y wybodaeth bersonol honno.
- 5.4 Mae heddluoedd sy'n bartneriaid yn gweithredu fformat adrodd safonol o dan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru a elwir yn llyfr nodiadau digwyddiadau SchoolBeat.
- Mae Atodiad D yn rhoi enghreifftiau o ffurflenni rhoi gwybod am ddigwyddiad o'r system hon.
  - Cyhoeddir rhagor o fanylion yn <https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-ndsb>

## 6 Nodi'r defnyddiwr gwasanaeth

- 6.1 Dylai sefydliadau partner wneud pob ymdrech i ddarparu'r holl ddynodyddion hysbys wrth rannu data â phartneriaid neu gyflwyno ceisiadau iddynt.



- 6.1.1 Bydd angen gwybodaeth gywir am unigolyn er mwyn sicrhau y gall pob sefydliad partner gyrraedd y defnyddiwr gwasanaeth y mae angen iddo ymgysylltu ag ef.
- 6.1.2 Drwy roi dynodyddion cywir, caiff hawl yr unigolyn i brosesu cywir ei pharchu.
- 6.1.3 Gallai absenoldeb dynodydd mewn adroddiad beri risg diogelu os bydd yn atal y ffeithiau perthnasol rhag cael eu hystyried yn ystod yr ymchwiliad canlyniadol.
- 6.2 Mae dynodyddion personol y gellir eu rhannu o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn cynnwys y canlynol ac unrhyw ddynodyddion angenrheidiol eraill sy'n seiliedig ar bolisi lleol.
  - Enw(au)
  - Dyddiad geni
  - Cyfeiriad
  - Cod post
  - Rhif Adnabod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNCID)
  - Rhif y Swyddfa Cofnodion Troseddol
  - Rhif Unigryw'r Dysgwr / Rhif Unigryw'r Disgybl / Rhif Gyfresol Unigryw'r Disgybl

## 7 Hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth

- 7.1 Bydd angen cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolwyr cyfreithlon yn glŷn â'r angen i rannu gwybodaeth ar y cyfle priodol cyntaf posibl, yn ddelfrydol ar adeg y cyswllt cyntaf oni fyddai risg o niwed i eraill neu oni fyddai unrhyw ymchwiliad neu achos cyfreithiol yn cael ei rwystro pe gwneid hynny.
- 7.2 Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd ymarferwyr yn hysbysu defnyddwyr gwasanaeth neu eu cynrychiolwyr cyfreithlon yn glir ynghylch pa wybodaeth bersonol sydd i'w rhannu, ac at ba ddibenion y caiff ei defnyddio. Dylai sefydliadau partner hefyd sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall yn llawn y ffordd y bwriedir ymdrin â'u data personol o dan unrhyw amgylchiadau penodol, gan gynnwys enwau unrhyw bersonau neu sefydliadau y gall eu data gael eu rhannu â nhw.
- 7.3 Lle y bo'n briodol, y dulliau o ddarparu'r wybodaeth hon y cytunwyd arnynt yw:
  - Ffurflenni y cytunwyd arnynt â sefydliadau partner
  - Llythyrau
  - Taflenni gwybodaeth
  - Llyfrynau i ysgolion
  - Ar lafar
  - Gwefan SchoolBeat.cymru
  - Gwefannau eraill

## 8 Diogelwch gwybodaeth

- 8.1 Dylai ymarferwyr sy'n cyflawni'r swyddogaethau a amlinellir yn y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn fod yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth eu sefydliad a'u dilyn.
- 8.2 Pan na all ymarferwyr gydymffurfio â pholisiau eu sefydliad eu hunain o ran trosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal gan eu hadran Diogelwch Gwybodaeth/Llywodraethu cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i ddulliau diogel amgen, fel y'u nodir ym mholisi'r sefydliad, gael eu defnyddio nes bod asesiad risg wedi cael ei gynnal.

- 8.3 Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri diogelwch neu gyfrinachedd y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn neu fynd yn groes iddo mewn unrhyw ffordd arall yn unol â gweithdrefnau pob sefydliad partner ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Dylid ystyried rhannu canlyniad unrhyw ymchwiliad â'r sefydliadau partner dan sylw, lle y bo'n briodol.

## 9 Rheoli cofnodion

- 9.1 Dylai ymarferwyr sy'n cyflawni'r swyddogaethau a amlinellir yn y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn fod yn ymwybodol o weithdrefnau rheoli cofnodion eu sefydliad a'u dilyn, yn enwedig mewn perthynas â chasglu, prosesu a datgelu gwybodaeth bersonol.
- 9.2 Mae'n rhaid i bob darn o wybodaeth, p'un a yw'n cael ei ddal ar bapur neu mewn fformat electronig, gael ei storio a'i waredu yn unol â chyfnod cadw a gwaredu pob sefydliad partner.
- 9.3 Bydd pob sefydliad partner yn sicrhau bod y wybodaeth a ddelir ganddo yn gyflawn ac yn gyfredol hyd eithaf ei allu.
- 9.4 Bydd ymarferwyr yn sicrhau, lle y bo hynny'n ymarferol, y caiff cofnodion eu cadw ynghylch pryd y caiff gwybodaeth ei rhannu â sefydliad partner ac i bwy.
- 9.5 Ni ddylai penderfyniadau ynglŷn â defnyddwyr gwasanaeth byth gael eu gwneud drwy gyfeirio at wybodaeth anghywir, anghyflawn neu anghyfredol.
- 9.6 Os canfyddir bod gwybodaeth yn anghywir, bydd ymarferwyr yn sicrhau bod eu cofnodion a'u systemau'n cael eu cywiro yn unol â hynny. Mae'n rhaid ystyried cyngori sefydliadau partner hefyd, lle y bo'n ymarferol.

## 10 Ceisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

- 10.1 Pan gyflwynir ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn neu unrhyw ddefnyddiwr/defnyddwyr gwasanaeth unigol, yna ymdrinnir â phob cais yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol pob sefydliad partner.

## 11 Cwynion

- 11.1 Mae gan bob sefydliad partner weithdrefn ffurfiol y gall defnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau partner ac ymarferwyr ei defnyddio i gyflwyno eu cwynion ynglŷn â'r ffordd y cymhwysir y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn.

## 12 Adolygu'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn

- 12.1 Caiff y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn ei adolygu ar ôl 12 mis i'w gyhoeddi ac yna bob dwy flynedd wedi hynny, neu'n gynt os yw'n briodol.
- 12.2 Yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion yw'r rheolwr a fydd yn gyfrifol am y broses adolygu.

## Atodiad A – Rhestr Termiau

Term	Diffiniad
<b>Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu</b>	Y brif gronfa ddata sy'n cofnodi euogfarnau troseddol a phobl sydd ar goll.
<b>Deddf Diogelu Data</b>	Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoleiddio'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu yn y DU. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data yn gweithredu'r darpariaethau a elwir yn GDPR y DU. Mae adran 3 o'r Ddeddf Diogelu Data yn ymwneud â phrosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith.
<b>Defnyddiwr gwasanaeth</b>	Term cynhwysol sy'n disgrifio'r bobl hynny sy'n dod i gysylltiad â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sy'n cofnodi gwybodaeth amdanynt. Gall sefydliadau partner gyfeirio at y bobl hynny fel y rhai sy'n destun data, disgyblion, dysgwyr, cleifion, cleientiaid, cynrychiolwyr cyfreithlon, ac ati.
<b>Digwyddiad SchoolBeat</b>	Digwyddiad nad yw'n achos brys lle yr amheuir ymddygiad troseddol ar safle ysgol lle dim ond plant sydd dan sylw.
<b>Dynodyddion personol</b>	Cyfes o fanylion personol sylfaenol sy'n ei gwneud yn bosibl i sefydliad partner nodi pwy yn union y cyfeirir ato, er enghraifft: enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cod post.
<b>Gwybodaeth bersonol</b>	Gwybodaeth am unigolyn, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei nodi'n benodol o'r wybodaeth honno yn unig neu o'r wybodaeth honno neu wybodaeth arall sydd ar gael i'r sefydliad hwnnw. Mae'n cynnwys data personol o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf Diogelu Data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ymadawedig.
<b>Gwybodaeth bersonol sensitif</b>	Gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig unigolyn, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, p'un a yw'n aelod o undeb llafur, iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu gyflwr corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu unrhyw drosedd a gyflawnwyd yn ôl yr honiad, neu unrhyw weithrediadau mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd neu yr honnwyd iddi gael ei chyflawni, penderfyniadau ar weithrediadau o'r fath neu ddeddfryd unrhyw lys mewn unrhyw weithrediadau o'r fath. Mae'n rhaid i wybodaeth bersonol sensitif gael ei phrosesu at ddiben a bennir yn Atodlen 8 i'r Ddeddf Diogelu Data megis diogelu plant.
<b>Heddlu sy'n bartner</b>	Y pedwar heddlu sy'n bartneriaid o dan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru yw: Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gwent.

Term	Diffiniad
<b>Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (RYHC)</b>	Rhaglen atal troseddau genedlaethol a weithredir gan Lywodraeth Cymru, Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gwent. Mae Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn barhad uniongyrchol o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a chaiff ei hysbysebu'n gyhoeddus ar wefan <b>SchoolBeat.cymru</b> .
<b>Sefydliad partner diogelu</b>	Partner nad yw'n asiantaeth gorfodi'r gyfraith sydd â dyletswydd i ddiogelu plant a/neu unigolion sy'n wynebu risg.
<b>Sefydliad partner gorfodi'r gyfraith</b>	Unrhyw bartner sy'n gweithredu o dan Awdurdod Cymwys Atodlen 7 i'r Ddeddf Diogelu Data at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data. Mae heddluoedd yn aml yn gweithredu yn rhinwedd y swyddogaeth hon o dan awdurdod eu Prif Gwnstabl. Mae timau troseddau ieuencid hefyd yn awdurdodau cymwys.
<b>Swyddog Heddlu Ysgolion</b>	Swyddog yr heddlu sy'n gweithio i roi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ar waith yn ei heddlu lleol. Cyfeirir at y swyddi hyn fel Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion neu Swyddogion Cyswllt ag Ysgolion.
<b>Y Swyddfa Cofnodion Troseddol</b>	Y Swyddfa Cofnodion Troseddol yw'r man lle y caiff pob cofnod troseddol ei storio a'i sgrinio lle y bo'n briodol.
<b>Ymarferydd</b>	Term cynhwysol sy'n disgrifio unrhyw staff sy'n gweithio i'r sefydliadau partner sy'n ymwneud â gofal defnyddiwr gwasanaeth neu sy'n darparu gwasanaethau i'r defnyddiwr gwasanaeth. Er enghraifft: swyddog yr heddlu, athro, gweithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol, gwirfoddolwr ac ati.

## Atodiad B – Llif Data Enghreifftiol

Mae gan staff yn Ysgol Penyfforest reswm dros gredu bod digwyddiad SchoolBeat\* wedi cymryd lle.

Mae aelod o'r staff yn cysylltu â Swyddog Heddlu Ysgolion ac yn ei hysbysu am natur y digwyddiad.

Er mwyn diogelu'r plant y mae'r digwyddiad wedi effeithio arnynt neu sy'n rhan o'r digwyddiad, mae'r aelod o'r staff yn nodi pwy yw'r disgyblion drwy roi eu henw, cyfeiriad preswyl, dyddiad geni a rhif unigryw'r disgybl.

Mae'r swyddog yn cofnodi'r wybodaeth hon fel y gall yr heddlu ymchwilio i'r digwyddiad.

Ymchwilir i'r digwyddiad yn unol â'r Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion. O dan y protocol, bydd Swyddogion Heddlu Ysgolion yn ceisio dod o hyd i ateb adferol os oes modd, gan leihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cael eu troseddoli am fân droseddau.

Os bydd yr ymchwiliad yn esgor ar wybodaeth sy'n berthnasol at ddibenion diogelu neu weinyddu cyfiawnder, bydd y swyddog yn defnyddio'r data sy'n ofynnol at y diben hwnnw. Er enghraifft, os bydd angen cofnodi trosedd, yna bydd hyn yn digwydd drwy systemau mewnol yr heddlu.

Mae Swyddog Heddlu Ysgolion yn cofnodi natur y digwyddiad a'i ganlyniad ar system llyfr nodiadau digwyddiadau SchoolBeat. Cofnodir y wybodaeth bersonol ganlynol am y disgybl: rhyw, ysgol a fynychir, blwyddyn ysgol, rhif unigryw'r disgybl. Gall y cofnod o'r digwyddiad gael ei ddefnyddio gan yr heddlu i ddogfennu'r camau a gymerir i ymchwilio i'r digwyddiad a diogelu'r plentyn.

**Yn y llif data uchod, rhannodd Ysgol Penyfforest ddata â'i heddlu lleol.**

**Diben prosesu'r data personol o dan Atodlen 8 oedd diogelu plant.**

Rhestrir dibenion Atodlen 8 ar gyfer y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn 4.2.

**Rhannodd Ysgol Penyfforest ddata ar sail Erthygl 6 ei bod yn angenrheidiol rhannu data fel rhan o'i dyletswydd gyfreithiol i ddiogelu'r plentyn.**

Rhestrir seiliau Erthygl 6 ar gyfer y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn 4.4.

**Mae'r heddlu yn prosesu'r data yn unol ag adran 31 ar gyfer atal troseddau, ymchwilio iddynt, eu canfod neu eu herlyn, gweithredu cosbau troseddol a diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd.**

*\*Digwyddiad nad yw'n achos brys lle yr amheuir ymddygiad troseddol ar safle ysgol lle plant sydd dan sylw yw digwyddiad SchoolBeat. Yn achos digwyddiad brys dylid bob amser ffonio 999.*

## Atodiad C – Rhestr Wirio Rhannu ar gyfer Partneriaid ym maes Diogelu

O ystyried y sefyllfa rydych yn ei hwynebu a'r wybodaeth sydd gennych, a yw'r canlynol yn gymwys?

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu plant neu unigolion sy'n wynebu risg.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn gweinyddu cyfiawnder.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn atal twyll.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu bywyd rhywun.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn llywodraethu neu arfer awdurdod swyddogol, cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol arall neu gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd.**

- Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau'r gyfraith gyffredin.

**Mae testun y wybodaeth bersonol wedi'i gwneud "yn amlwg yn gyhoeddus".**

- Mae hyn yn golygu bod y person y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato wedi'i gwneud yn gyhoeddus.
- Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd.

Os oes unrhyw un o'r uchod yn gymwys, cewch rannu'r data sydd eu hangen i adnabod yr unigolyn ac ymdrin â'r mater dan sylw o dan Brothocol Rhannu Gwybodaeth Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

Gwybodaeth y gellir ei darparu:

- Natur y broblem neu'r pryder
- Enw
- Dyddiad geni
- Cyfeiriad
- Cod post
- Ysgol
- Grŵp blwyddyn ysgol
- Rhif unigryw'r disgybl
- Presenoldeb y disgybl a/neu waharddiad o'r ysgol
- Ethnigrwydd
- Gwybodaeth berthnasol arall

- Gwybodaeth gyfredol am agwedd, ymarwedd, ymddygiad ac ati.
- Euogfarnau blaenorol, problemau camddefnyddio sylweddau, hanes cydberthnasau teuluol, opsiynau diogelwch eraill a ystyriwyd
- Gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â chyswllt diweddar, cyfarfodydd, achosion o weld unigolyn, galwadau ffôn
- Dod i apwyntiadau neu fethiant i wneud hynny a phwy sy'n bresennol mewn cyfeiriad.
- Gwybodaeth am orchmynion llys, gwaharddebau, amodau mechnïaeth a materion cyfreithiol eraill.


--

Sefydliad	Aelod o staff	Dyddiad

## Atodiad CH – Rhestr Wirio Rhannu ar gyfer Partneriaid ym maes Gorfodi'r Gyfraith

O ystyried y sefyllfa rydych yn ei hwynebu a'r wybodaeth sydd gennych, a yw'r canlynol yn gymwys?

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu plant neu unigolion sy'n wynebu risg.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn gweinyddu cyfiawnder.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn atal twyll.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu bywyd rhywun.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd neu eu hatal.**

**Mae'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth hon er mwyn llywodraethu neu arfer awdurdod swyddogol, cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol arall neu gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd.**

- Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau'r gyfraith gyffredin.

**Mae testun y wybodaeth bersonol wedi'i gwneud "yn amlwg yn gyhoeddus".**

- Mae hyn yn golygu bod y person y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato wedi'i gwneud yn gyhoeddus.
- Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd.

Os oes unrhyw un o'r uchod yn gymwys, cewch rannu'r data sydd eu hangen i nodi'r unigolyn a disgrifio'r mater dan sylw o dan Brothocol Rhannu Gwybodaeth Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.





Nodiadur Digwyddiad SchoolBeat (Ffurflen Peilot 1)

Mae'r ffurflen hon yn caniatáu Swyddog Heddlu Ysgolion i gofnodi log o gyfarfodau, camau a chanlyniadau ynglŷn â digwyddiad SchoolBeat mewn ysgol uwchradd. Defnyddir y data ar y ffurflen i goladu ystadegau ac arsylwi tueddiadau er mwyn cynorthwyo trechu troseddau, rheoli camau a gymerwyd wrth ganfod ac ymchwilio troseddau, er mwyn rheoli llwyth gwaith ac er mwyn asesu effeithiolrwydd ein darpariaeth gwasanaeth.

Dyluniwyd y broses yn ofalus i gofnodi'r isafswm o wybodaeth personol am ddefnyddwyr gwasanaeth wrth ein caniatáu i ddeall eu demograffig. Nid yw enwau byth yn cael eu cofnodi ar y ffurflen; yn cyfredinol, ni fyddai unrhyw un ond y swyddog a ysgrifennodd y ffurflen sydd yn gallu adnabod y disgyblion a'u gyfarfu.

<b>Officer</b>	<b>Referral Date</b> YYYY-MM-DD	<b>Incident Number</b> <i>An incident number will be assigned when you save</i>
<b>Individual Meetings</b> NUMBER	<b>Incident Context</b> <i>Please do not include the names of pupils involved.</i> TEXT BOX	
<b>Person A</b>		
<b>About the Individual</b>		
UPS NUMBER <i>(if known)</i>	SBC CODE <i>New code will be assigned when you save</i>	
<b>Demographic Information</b>		<b>School</b>
Female	Year 7	
Male	Year 8	
	Year 9	
	Year 10	
	Year 11	
	Sixth Form	
	Adult	
		<b>Prior SB Incidents</b>
		No Prior History
		Prior History

**Meeting Held**

No

Yes

YYYY-MM-DD

**Time Spent**

HH:MM

**Involvement**

Victim

Aggressor

**Referred By**

School

Parent

Self

Police

Outside Agency

Other

**Parents Informed**

No

Yes

**Incident Type**

A-C Assault (Common)

A-V Assault (Violence)

B-C Bullying (Cyberbullying)

B-D Bullying (Disabilities)

B-H Bullying (Homophobic)

B-R Bullying (Race, Religion or Culture)

B-S Bullying (Sexual, Sexist or Transphobic)

B-SEN Bullying (Special Educational Needs)

B Bullying (ASB / General / Other)

DP Damage to Property

DP-A Damage to Property – Arson

DA Domestic Abuse / Child Protection / Welfare Concern

DB Disruptive Behaviour

G Graffiti

H Harassment

O-G Other – General

SI-I Sexual Issue - Incident

SI-M Sexual Issue - Messages or Images

SI-E Sexual Issue - CSE Concern

SM Substance Misuse

TH Theft

T Truancy

W Possession of a Weapon

Action Taken	Hate Crime	Individual Context
-----	No	<i>Please do not include the names of pupils involved.</i>
Warned pupil as to their conduct	Yes	TEXT BOX
Meeting	<b>Alcohol Related</b>	
Talked with pupil	No	
RJ	Yes	
Gave advice	<b>Solvent Related</b>	
Other Action	No	
Criminal Investigation	Yes	
	<b>Drugs Related</b>	
	No	
	Yes	
	<b>NPS Related</b>	
	No	
	Yes	
Forms	Outcome	Parents Updated
PPN	-----	-----
PIN	No Further Issue	No
ASB Referral	School Sanction (e.g. exclusion, detention)	Yes
Intel. Log	Referred to Multi-Agency Panel	
STORM Form	Alternative Intervention	<b>Closure</b>
<b>NICHE Occurrence</b> <i>(if applicable)</i>	Closed under School Beat Protocol	Has the pupil been involved in another incident?
	Crimed & Closed with Outcome 21	-----
<b>ORIS Log</b> <i>(if applicable)</i>	Crimed (Not SBP or O21)	No
		Yes

## Appendix DD – Rhestr o Ysgolion Ymrestredig

Mae'r ysgolion canlynol wedi ymrestru â Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ar 09/08/2021.

### Heddlu De Cymru

#### Abertawe

##### Cynradd Prif Ffrwd

Birchgrove Primary (Swansea)  
Bishopston Primary  
Blaenymaes Primary  
Brynmill Primary  
Burlais School  
Cadle Primary  
Casllwchwr Primary  
Christchurch (Swansea)  
Cila Primary  
Clase Primary  
Clwyd Community Primary  
Clydach Primary  
Craigfelen Primary  
Crwys Primary  
Cwmglas Primary  
Cwmrhydyceirw Primary  
Danygraig Primary  
Dunvant Primary  
Gendros Primary  
Glais Primary  
Glyncollen Primary  
Gorseinon Primary  
Gors Primary  
Gowerton Primary  
Grange Primary  
Gwyrosydd Primary  
Hafod Primary (Swansea)  
Hendrefoilan Primary  
Knelston  
Llangyfelach  
Llanrhidian  
Mayals  
Morrison Primary  
Newton Primary (Swansea)  
Oakleigh House School (Ind)  
Oystermouth  
Parklands  
Pen-y-Fro

Penclawdd  
Pengelli  
Penllergaer  
Pennard  
Pentre'r Graig Primary  
Pentrechwyth  
Penyrheol  
Plasmarl  
Pontarddulais Primary  
Pontlliw  
Pontybrenin Primary  
Portmead  
Sea View Community  
Sketty  
St David's RC Primary (Swansea)  
St Helen's Primary (Swansea)  
St Illtyd's RC Primary (Swansea)  
St Joseph's Cathedral RC Primary School  
St Joseph's Primary (Clydach)  
St Thomas  
Talycopa  
Terrace Rd  
Townhill  
Trallwn  
Tre Uchaf  
Waunarllwydd  
Waun Wen Primary  
Whitestone Primary  
YGG Bryniago  
YGG Brynymor  
YGG Gellionnen  
YGG Llwynderw  
YGG Lon-Las  
YGG Pontybrenin  
YGG Tirdeunaw  
YGG y Cwm  
Y Login Fach  
Ynystawe  
Ysgol Tan-y-lan

##### Uwchradd Prif Ffrwd

Birchgrove Comprehensive School  
Bishop Gore School  
Bishopston Comprehensive School  
Bishop Vaughan RC School  
Cefn Hengoed Community School  
Dylan Thomas Community School  
Ffynone House School (Ind)  
Gowerton Comprehensive School  
Keystone Trust (Plymouth Bretheren) (Ind)  
Morrison Comprehensive School

Olchfa School  
Pentrehafod School  
Penyrheol Comprehensive School  
Pontarddulais Comprehensive School  
YG Bryntawe  
YG Gwyr

### Addysg Arbennig

Dan Y Coed  
Pen y Bryn Special School  
Ysgol Crug Glas

### Addysg Bellach

Gower College Swansea

### Darpariaeth Amgen

Maes Derw

### Safle Addysgol Arall

Swansea City Academy

## Bro Morgannwg

### Cynradd Prif Ffrwd

Albert Road Primary  
All Saints Primary (Barry)  
Barry Island Primary  
Bont Faen  
Cadoxton Primary  
Cogan Primary  
Colcot Primary  
Dinas Powys Primary  
Evenlode Primary  
Fairfield Primary  
Gladstone Primary (Barry)  
Gwenfo Primary  
High Street Primary  
Holton Road Primary  
Jenner Park Primary  
Llancarfan Primary School  
Llandough Primary  
Llanfair Primary  
Llangan Primary  
Llansannor Primary  
Oakfield Primary (Barry)  
Palmerston Primary  
Pendoylan Primary  
Peterson-Super-Ely  
Rhws Primary  
Romilly Primary School

St Andrew's C in W Primary (Dinas Powys)  
St Athan Primary  
St Brides Primary  
St David's C in W Primary School  
(Colwinston)  
St Helen's Infants (Barry)  
St Helen's Juniors (Barry)  
St Illtyd's Primary (Llantwit)  
St Joseph's Primary (Penarth)  
St Nicholas  
Sully Primary  
Victoria Primary (Penarth)  
Westbourne Nursery & Junior School (Ind)  
Wick & Marcross Primary  
YG Bro Morgannwg I (Primary)  
YGG Dewi Sant  
YGG Pen-y-Garth  
YGG Sant Baruc  
YGG Sant Curig  
Ysgol Gwaun Y Nant  
Ysgol Iolo Morganwg  
Ysgol Y Ddraig

### Uwchradd Prif Ffrwd

Cowbridge Comprehensive School  
Llantwit Major School  
Pencoedtre High  
Stanwell School  
St Cyres Comprehensive  
St Richard Gwyn RC High School  
Westbourne Secondary College (Ind)  
Whitmore High  
YG Bro Morgannwg II (Secondary)

### Addysg Arbennig

Ysgol Y Deri

### Darpariaeth Amgen

Headlands EBSD  
Landsker Brynsych (Ind)  
Y Daith – Amelia Trust  
Y Daith – Cowbridge

## Caerdydd

### Pob Oedran Prif Ffrwd

Cardiff Steiner School  
Howell's School (Cardiff) (Ind)  
Kings Monkton School (Ind)  
St John's College (Ind)

### Cynradd Prif Ffrwd

Adamsdown Primary School  
Albany Primary School  
Allensbank Primary School  
All Saints C in W Primary (Cardiff)  
Baden Powell Primary School  
Birchgrove Primary (Cardiff)  
Bishop Childs C in W Primary School  
Bryn Celyn Primary School  
Bryn Deri Primary School  
Bryn Hafod Primary School  
Cardiff Montessori  
Cardiff Muslim Primary (Ind)  
Christ The King RC Primary School  
Coed Glas Primary School  
Coryton Primary School  
Creigiau Primary School  
Danescourt Primary School  
Fairwater Primary School  
Gabalfa Primary School  
Gladstone Primary (Cardiff)  
Glan-yr-Afon Primary School  
Glyncoed Primary School (Cardiff)  
Grangetown Primary School  
Greenway Primary School  
Gwaelod Y Garth Primary School  
Hawthorn Primary (Cardiff)  
Herbert Thompson Primary  
Holy Family Primary  
Howardian Primary School  
Hywel Dda Primary School  
Kitchener Primary School  
Lakeside Primary School  
Lansdowne Primary School  
Llandaff City C in W  
Llanedeyrn Primary School  
Llanishen Fach Primary School  
Llysfaen Primary School  
Marlborough Primary School  
Meadowlane Primary School  
Millbank Primary School  
Moorland Primary School  
Mount Stuart Primary

Ninian Park Primary School  
Oakfield Primary (Cardiff)  
Pen-y-Bryn Primary School  
Pencaerau Primary school  
Pentrebane Primary School  
Pentyrch Primary School  
Peter Lea Primary School  
Pontprennau Primary School  
Radnor Primary School  
Radyr Primary School  
Rhiwbina Primary School  
Rhydypenau Primary School  
Roath Park Primary School  
Rumney Primary School  
Severn Primary School  
Springwood Primary School  
Stacey Primary School  
St Alban's RC Primary School  
St Bernadette's RC Primary School  
St Cadoc's Catholic Primary School  
St Cuthbert's RC Primary School  
St David's C in W Primary School (Cardiff)  
St Fagans C in W Primary School  
St Francis RC Primary School  
St John Lloyd RC Primary School  
St Joseph's RC Primary (Cardiff)  
St Mary's RC Primary School (Cardiff)  
St Mary The Virgin C in W Primary School  
St Mellons C in W Primary School  
St Monica's C in W Primary School  
St Patrick's RC Primary School  
St Paul's C in W Primary School  
St Peter's RC Primary School  
St Phillip Evans RC Primary School  
The Cathedral School Primary (Ind)  
Thornhill Primary School  
Ton-yr-Ywen Primary School  
Tongwynlais Primary School  
Tredgarville C in W Primary School  
Trelai Primary School  
Trowbridge Primary School  
Ummul Mumineen Academy  
Whitchurch Primary School  
Willowbrook Primary School  
Windsor Clive Primary School  
YGG Coed-Y-Gof  
YGG Gwaelod-Y-Garth Primary School  
YGG Hamadryad  
YGG Melin Gruffydd  
YGG Mynydd Bychan

YGG Nant Caerau  
YGG Pen-Y-Groes  
YGG Pencae  
YGG Pen Y Pil  
YGG Pwll Coch  
YGG Treganna  
YGG Y Berllan Deg  
Ysgol Bro Eirwg  
Ysgol Creigiau  
Ysgol Glan Ceubal  
Ysgol Glan Morfa  
Ysgol y Wern

### Uwchradd Prif Ffrwd

Bishop Of Llandaff C in W High School  
Cantonian High School  
Cardiff High School  
Cardiff West Community High School  
Cathays High School  
Corpus Christi Catholic High School  
Eastern High School  
Fitzalan High School  
Llanishen High School  
Mary Immaculate High School  
Radyr Comprehensive School  
St Illtyd's Catholic High School  
St Teilo's C in W High School  
The Cathedral School Secondary (Ind)  
Whitchurch High School  
Willows High School  
YG Glantaf  
YG Plasmawr  
Ysgol Bro Edern

### Addysg Arbennig

Greenhill School (Cardiff)  
Meadowbank Primary Special Needs  
Red Rose School  
Riverbank Primary SEN  
The Court Special School  
The Marion Centre  
Ty Coryton  
Ty Gwyn Special School  
Woodlands High School

### Darpariaeth Amgen

Bryn Y Deryn School and Student Support Unit

### Safle Addysgol Arall

Cardiff City Football Academy

## Castell-Nedd Port Talbot

### Cynradd Prif Ffrwd

Abbey Primary School  
Alderman Davies C in W Primary School  
Alltwen Primary School  
Awel Y Mor  
Baglan Primary School  
Blaenbaglan Primary School  
Blaendulais Primary School  
Blaengwrach Primary School  
Blaenhonddan Primary School  
Bryncoch C in W Primary School  
Catwg Primary School  
Central Primary  
Cilffriw Primary School  
Coedffranc Primary School  
Coed Hirwaun Primary School  
Creunant Primary School  
Croeserw Primary School  
Crymlyn Primary School  
Crynallt Primary School  
Cwmafan Junior School  
Cwmnedd Primary School  
Cymer Afan  
Eastern Primary School  
Glyncorrwg Primary School  
Gnoll Primary School  
Godre'rgraig Primary School  
Llangiwig Primary School  
Maesmarchog Community Primary School  
Melin Infant School  
Melin Junior School  
Pen Afan Primary  
Rhos Primary School  
Rhydyfro Primary School  
Sandfields Primary School  
St Joseph's Catholic Infant (NPT)  
St Joseph's Catholic Junior (NPT)  
St Joseph's Catholic Primary (NPT)  
St Therese's Catholic Primary School  
Tairgwaith Primary School  
Tonnau Primary Community School  
Tywyn Primary School  
Wauanceirch Primary School  
YGG Blaendulais  
YGG Castell-nedd  
YGG Cwmllynfell  
YGG Cwm Nedd  
YGG Gwaun Cae Gurwen



YGG Pontardawe  
YGG Rhosafan  
YGG Trebannws  
YGG Tyle'r Ynn  
YGG Ystalyfera  
Ynysfach Primary School  
Ysgol Bae Baglan 1 (Primary)  
Ysgol Carreg Hir  
Ysgol Cwm Brombil 1 (Primary)

### Uwchradd Prif Ffrwd

Cefn Saeson Comprehensive School  
Cwmtawe Community School  
Dwr Y Felin Comprehensive School  
Llangatwg Community School  
St Joseph's Comprehensive (NPT)  
YG Ystalyfera  
YG Ystalyfera Campws Bro Dur  
Ysgol Bae Baglan 2 (Secondary)  
Ysgol Cwm Brombil 2 (Secondary)

### Addysg Arbennig

Maes Y Coed (Neath)  
Ysgol Hendrefelin (Bryncoch)

### Addysg Bellach

Afan College

### Darpariaeth Amgen

Hillside Secure Centre  
Ysgol Hendrefelin (Velindre)

## Pen-y-bont ar Ogwr

### Pob Oedran Prif Ffrwd

St Clare's School (Ind)

### Cynradd Prif Ffrwd

Abercerdin Primary School  
Afon-y-Felin Primary School  
Archdeacon John Lewis Primary School  
Bettws Primary School  
Blaengarw Primary School  
Brackla Primary School  
Bryncethin Primary School  
Brynhyfryd Primary School (Swansea)  
Brynmenyn Primary School  
Bryntirion Infants School  
Caerau Primary School  
Cefn Cribwr Primary School  
Cefn Glas Infant School

Coety Primary School  
Corneli Primary School  
Coychurch (Llangrallo) Primary School  
Croesty Primary School  
Cwm Felin Primary  
Ffaldau Primary School  
Garth Primary School  
Litchard Primary School  
Llangewydd Junior School  
Llangynwyd Primary School  
Maes y Haul Primary School  
Mynydd Cynffig Infants School  
Mynydd Cynffig Junior School  
Nantyffyllon Primary School  
Nantymoel Primary School  
Newton Primary (Bridgend)  
Nottage Primary School  
Ogmore Vale Primary School  
Oldcastle Primary School  
Pencoed Primary School  
Penybont Primary School  
Pen y Fai C in W Primary  
Pil Primary School  
Plasnewydd Primary School  
Porthcawl Primary School  
St Mary's & St Patrick's Catholic Primary School  
St Mary's Catholic Primary School (Bridgend)  
St Robert's RC Primary School  
Tondu Primary School  
Trelales Primary School  
Tremains Primary School  
Tyn-yr-Heol Primary School  
West Park Primary School  
YGG Bro Ogwr  
YGG Cwm Garw  
YGG Cynwyd Sant  
Ysgol Y Ferch o'r Sger

### Uwchradd Prif Ffrwd

Archbishop McGrath Catholic School  
Brynteg School  
Bryntirion Comprehensive School  
Coleg Cymunedol Y Dderwen  
Cynffig Comprehensive School  
Maesteg Comprehensive  
Pencoed Comprehensive School  
Porthcawl Comprehensive School  
YG Llangynwyd

## Addysg Arbennig

Héronsbridge Special School  
Ysgol Bryn Castell

## Addysg Bellach

Bridgend College (Bridgend)  
Bridgend College (Pencoed Campus)

## Darpariaeth Amgen

Bridgend PRU

## Merthyr

### Cynradd Prif Ffrwd

Abercanaid Community School  
Bedlinog Primary School  
Caedraw Primary School  
Coed y Dderwen  
Cyfarthfa Park Primary School  
Dowlais Primary School  
Edwardsville Primary School  
Gellifaelog Primary School  
Goetre Primary School  
Gwaunfarren Primary School  
Heolgerrig Community School  
Pantysgallog Primary School  
St Aloysius RC Primary School  
St Illtyd's RC Primary (Merthyr)  
St Mary's RC Primary School (Merthyr)  
Trelewis Primary School  
Troedyrhiw Primary School  
Twynrodyn Community School  
YGG Rhyd-Y-Grug  
YGG Santes Tudful  
Ynysowen Community Primary School  
Ysgol-Y-Graig Primary School

### Uwchradd Prif Ffrwd

Afon Taf High School  
Bishop Hedley High School  
Cyfarthfa High School  
Penydre High School

## Addysg Arbennig

Greenfield Special Needs

## Darpariaeth Amgen

EOTAS

Ty Dysgu

Ty Homfray

## Rhondda Cynon Taff

### Pob Oedran Prif Ffrwd

Porth Community School  
Tonyrefail Community

### Cynradd Prif Ffrwd

Abercynon Community Primary  
Aberdare Park Primary  
Aberdare Town C in W Primary School  
Abernant Primary School  
Alaw Primary School  
Blaengwawr Primary School  
Bodringallt Primary School  
Brynnau Primary School  
Caegarw Primary School  
Capcoch Primary School  
Caradog Primary School  
Cefn Primary  
Cilfynydd Primary School  
Coedpenmaen County Primary School  
Coed y Lan Primary School  
Craig Yr Hesg Primary School  
Cwmaman Primary School  
Cwmbach C in W Primary School  
